

Cwrs Uwch – Uned Gyfoes (Mis Medi 2020):

Radio Cymru – Nodiadau i'r Tiwtor

Nid yw hon yn wers newydd. Diweddarwyd y wers a gyhoeddwyd gyntaf ym mis Medi 2019.

Nod y wers:

- Cyflwyno a thrafod Radio Cymru;
- Trafod rhaglenni radio ac arferion gwrando;
- Dysgu geirfa ac idiomau newydd.

O 10-17 Hydref, bydd hi'n Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg ar BBC Radio Cymru am yr ail flwyddyn. I gyd-fynd â'r wythnos arbennig hon, bwriad yr uned hon yw helpu i gyflwyno Radio Cymru i ddysgwyr ar lefel Uwch a'u hannog i wrando ar yr orsaf. Cyflwynir gwybodaeth am rai o raglenni a chyflwynwyr yr orsaf a chyfle i drafod pa fath o raglenni a cherddoriaeth sy'n apelio at y dysgwyr. Mae'n bosib cyflwyno'r elfennau yn y wers hon dros fwy nag un sesiwn. Yn wir, mae tasg a osodir tua diwedd yr uned yn gofyn i'r dysgwyr wrando ar Radio Cymru cyn cynnal trafodaeth yn y wers nesaf.

1. Cyflwyniad

Wrth gyflwyno'r uned, cyfeiriwch at Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru, ond pwysleisiwch mai cyflwyno Radio Cymru yn gyffredinol ydy bwriad yr uned.

2. Storm eirfa

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau bychain (3-4) i feddwl am gymaint o eirfa sy'n gysylltiedig â radio, neu Radio Cymru yn benodol ag y gallant. Yna dewch â'r dosbarth ynghyd i glywed beth yw geirfa pob grŵp ac i fynd dros y rhai anghyfarwydd gan sicrhau eich bod yn cyfeirio at y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y tabl ar dudalen 2 yr uned.

3. Ymarfer Iaith

Gofynnwch i barau weithio trwy'r brawddegau yn gosod y gair mwyaf addas yn y bwlch:

1. Rhaglenni **adloniant** ysgafn sydd ar Radio Cymru yn y prynhawn, gyda chymysgedd o gerddoriaeth, sgwrsio a chystadlaethau.
2. Gallwch chi glywed y penawdau newyddion diweddaraf mewn **bwletin**au sy'n cael eu darlledu ar yr awr.
3. Ar ei raglen radio bob prynhawn, mae Ifan Evans yn annog y **gwrandawyr** i gysylltu a rhoi cynnig ar wahanol gystadlaethau.
4. Mae **gwestai** Beti George yn cael dewis pedair cân i'w chwarae yn ystod eu sgwrs ar raglen *Beti a'i Phobl*.

5. Mae rhaglenni o bob math yn rhan o **arllwy** dyddiol Radio Cymru – dylai fod rhywbeth yno i blesio pawb!
6. Mae rhaglenni Radio Cymru'n cael eu darlledu o bedair **stiwidio** - un ym Mangor, un yn Aberystwyth, un yng Nghaerfyrddin ac un yng Nghaerdydd. Mae rhai o'r darlledwyr yn darlledu o'u cartrefi nhw yn ystod Covid-19.
7. Mae rhaglen **chwaraeon** yn cael ei darlledu ar Radio Cymru ar brynhawn Sadwrn. Mae'n cynnwys **sylwebaeth** ar gemau pêl-droed a rygbi ac yn rhoi'r sgoriau diweddaraf o'r meysydd chwarae.

4. Siarad

Cyflwynwch y cwestiynau sy'n trafod arferion gwranddo. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrefodaethau'r grwpiau. Gellir dangos sut i gael hyd i bodlediad *Pigion* - <https://www.bbc.co.uk/sounds/search?q=Pigion&suggid=urn%3Abbc%3Aprogrammes%3Ab007rkcw&page=1>.

5. Gwranddo – sgwrs gyda Rhuanedd Richards

Ceir trawsgrifiad o'r sgwrs yn Atodiad 1 er gwybodaeth a hwylustod i chi.

Ewch dros yr eirfa sydd yn y tabl gan sicrhau bod pawb yn eu deall, ac yna gofynnwch i'r dysgwyr wrando am y geiriau hyn a rhoi ✓ yn y man priodol yn y tabl bob tro y byddant yn clywed un o'r geiriau.

Wedi gwranddo ar y darn unwaith, trafodwch yr uchod a chwarae'r darn eto os oes angen er mwyn gwranddo eto am y geiriau.

Wedyn, trafodwch yr ymadrodd **rhywbeth at ddant pawb** cyn gofyn i barau gwblhau'r ymarfer i roi'r ffurfiau cywir ar yr ymadrodd hwnnw gyda'r gwahanol ragenwau:

at fy nant i
at dy ddant di
at ei ddant e/o
at ei dant hi
at eich dant chi

Chwaraewch y darn eto cyn gofyn i barau restru'r mathau o raglenni y mae Rhuanedd yn cyfeirio atynt. Yna, gall y parau fynd ymlaen i drafod atebion i gwestiynau 4. a 5. Os gwelwch fod angen ail-chwarae'r darn unrhyw bryd yn ystod yr ymarferion hyn, gwnewch hynny. Wedi i'r parau gael cyfle i drafod, trafodwch yr atebion gyda'r dosbarth cyfan.

6. Siarad

Cyflwynwch y set nesaf o gwestiynau siarad. Wedi cyflwyno'r cwestiynau, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i holi ei gilydd. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofynnwch am unrhyw wybodaeth ddiddorol a gododd yn nhrefodaethau'r grwpiau.

7. Darllen – Radio Cymru

Cyfeiriwch at y tabl o ddyddiadau ac amserau uwchben y darn darllen a gofynnwch i barau fynd trwy'r darn darllen gan lenwi'r wybodaeth yn y tabl:

3 Ionawr 1977	Dechreuodd Radio Cymru ddarlledu ar y dyddiad hwn.
29 Ionawr 2018	Lawnsiwyd Radio Cymru 2.
12-18 Hydref 2019	Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg BBC Radio Cymru
5:30am	Dyma pryd mae rhaglen gyntaf y dydd yn dechrau ar Radio Cymru.
Hanner nos	Dyma pryd mae rhaglen olaf y dydd yn gorffen.
6:45am	Dyma pryd dechreuodd darllediad cyntaf Radio Cymru yn 1977.
6:30-8:30am dydd Llun-dydd Gwener	Dyma amser darlledu Radio Cymru 2 yn ystod yr wythnos.
5:00-6:00pm	Mae rhaglen newyddion yn cael ei darlledu dros yr awr hon.

Wedi i'r parau gael cyfle i gwblhau'r tabl, trafodwch yr atebion gyda'r dosbarth cyfan ac yna gofynnwch i'r parau ganfod 5 treigladd yn y darn darllen ac esbonio pam y maent yno. Trafodwch yr enghreifftiau a ddewiswyd gan bawb gyda'r dosbarth cyfan.

Cyfeiriwch at y pethau sy'n digwydd yn rhan o Wythnos Dathlu Dysgu Cymraeg Radio Cymru. Mae'r bwletin newyddion 8pm yn rhoi cyfle i chi wrando ar y bwletin hwnnw yn y dosbarth os ydych chi'n dysgu dosbarth nos.

8. Gweithgaredd - pa raglen?

Ceir deuddeg o raglenni Radio Cymru mewn sleid PowerPoint. Ar gyfer y dosbarth rhithiol, anfonwch un neu fwy o'r disgrifiadau isod (yn dibynnu faint sydd yn y dosbarth) at aelodau'r dosbarth ymlaen llaw. Byddant yn darllen eu disgrifiad/au i weddill y dosbarth a'r dysgwyr yn penderfynu pa raglen sy'n cael ei disgrifio. Ewch dros yr atebion fesul rhaglen, gan adael i bawb gael amser i feddwl cyn gofyn i un person am yr ateb. Gellir cadw at yr un drefn yn y dosbarth wyneb yn wyneb gan na fydd yn bosib dosbarthu cardiau. Dyma'r disgrifiadau i'w hanfon at y dysgwyr:

Post Cyntaf: Rhaglen sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i ni rhwng 7:00 a 9:00 yn y bore

Bore Cothi: Rhaglen foreol o sgysiau dros banded a cherddoriaeth amrywiol dan ofal y gantores opera, Shân Cothi

Rhaglen Aled Hughes: Straeon, sgwrsio a cherddoriaeth o 9:00 tan 11:00 y bore gyda'r gŵr o Ben Llŷn

Rhaglen Ifan Evans: Cerddoriaeth, cwmnïaeth, a chystadleuaeth neu ddwy gyda'r ffermwr o ardal Tregaron, bob prynhawn o ddydd Llun i ddydd Iau

Recordiau Rhys Mwyn: Cerddoriaeth nos Lun - clasuron coll o gasgliad recordiau'r cyflwynydd, a gwesteion yn hel atgofion am yr 80au a'r 90au

Rhaglen Tudur Owen: Cerddoriaeth a chwerthin gyda'r comediwr o Ynys Môn a'i gyfeillion ar brynawn Gwener a bore Sadwrn

Galwad Cynnar: Trafodaeth wythnosol ar natur a bywyd gwyllt sy'n cael ei darlledu ben bore dydd Sadwrn

Ar y Marc: Dylan Jones a'r criw yn trafod pob math o bethau'n ymwneud â phêl-droed bob bore Sadwrn am 8:30

Sioe Frecwast Dafydd a Caryl: Cerddoriaeth ac adloniant ysgafn ar ddechrau'r dydd ar Radio Cymru 2

Stiwidio: Golwg ar y celfyddydau yng Nghymru a thu hwnt gyda Nia Roberts

Dewi Llwyd ar Fore Sul: Adolygiad o'r papurau Sul, cerddoriaeth hamddenol, a sylw i wleidyddiaeth a'r celfyddydau

Beti a'i Phobol: Beti George yn holi rhai o bobl fwyaf diddorol Cymru ac yn cael clywed eu hoff ganeuon

Cofiwch sicrhau nad yw'r dysgwyr yn cyflwyno eu disgrifiadau yn yr un drefn â'r rhaglenni yn y PowerPoint.

9. Gwrando – Beti George ac Aled Hughes

Mae'r sgwrs hon yn eithaf heriol, felly mae'n bosibl na fydd yn addas i'w defnyddio gyda dosbarthiadau Uwch 1 os nad yw'r dysgwyr yn gryf iawn. Gwiriwch fod y darnau gwrando yn addas i'ch dosbarth chi cyn rhoi cynnig ar y gweithgaredd hwn.

Ceir trawsgrifiad o'r sgwrs yn Atodiad 2 er gwybodaeth a hwylustod i chi.

Mae'r sgwrs wedi ei rhannu'n dri darn. Cyn chwarae'r darn cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn paru i gysylltu'r geiriau ac ymadroddion â'r diffiniadau cywir:

cymryd yn ganiataol	peidio meddwl am rywbeth neu beidio ei werthfawrogi
rhyfeddu	cael syndod mawr
pynciau trafod	pethau y mae pobl eisiau siarad amdany'n nhw
pwyso a mesur	ystyried eich barn am rywbeth yn ofalus iawn
plethu	clymu gwahanol bethau at ei gilydd mewn patrwm
mynd ar drywydd	dilyn stori sydd y tu ôl i rywbeth
dadansoddi	edrych yn fanwl ar y gwahanol elfennau sy'n rhan o rywbeth
fy nhanio i	fy nghyffroi i neu ddeffro diddordeb ynof fi

Ewch dros yr atebion uchod ac yna esboniwch y defnydd o'r ymadrodd "creadur busneslyd" cyn gofyn i grwpiau bach drafod pa ansoddair/eiriau fyddai modd eu defnyddio gyda'r gair creadur(es) i'w disgrifio nhw. Nodwch y bydd angen iddynt gofio treiglo'r ansoddair gyda 'creatures'. Trafodwch yr awgrymiadau a godwyd gyda'r dosbarth cyfan cyn gofyn i bawb wrando am y geiriau a'r ymadroddion a drafodwyd uchod wrth i chi chwarae rhan gyntaf y sgwrs.

Gofynnwch i bawb sylwi sut mae Aled yn dweud "dw i ddim yn meddwl..." ("Dw i'm yn meddwl...") cyn i chi chwarae'r darn yr eilwaith. Trafodwch wedyn sut mae'r ymadrodd hwn yn cael ei ddweud yn nhafodiaith eich ardal chi (mae'n bosib y bydd mwy nag un ffordd yn gyffredin) cyn gofyn i barau ymarfer defnyddio'r ymadrodd priodol o flaen y cymalau sydd yn y llyfr, e.e.:

Dw i'm yn meddwl bod Beti George yn dod o'r Gogledd.

Dw i'm yn meddwl bod gan Aled wallt hir.

Sa i'n credu bod gwallt hir gydag Aled.

Smo fi'n credu mod i wedi clywed rhaglen Aled Hughes.

Fi ddim yn meddwl bod Aled yn gweithio ar ei ben ei hun.

Cyn chwarae'r ail ddarn, cyfeiriwch at y ffaith bod Aled yn defnyddio'r gair "anadlu" wrth drafod y sgysgiau ar ei raglen. Ar ôl i chi chwarae'r darn, gofynnwch i barau drafod beth mae'n ei feddwl wrth

ddweud hyn. Dylai'r atebion gyfeirio at y ffaith bod sgysiau'n cael parhau am amser eithaf hir ac nad oes pwysau parhaus i symud ymlaen at fwletin neu stori newyddion arall.

Gofynnwch wedyn i'r parau gwblhau'r ymadroddion yng nghwestiwn 6. a chwaraewch y darn eto cyn gwirio'r atebion:

peidio bod yn fi fawr

mae'n bwysicach (wastad) gwrando yn hytrach na deud

mae hi'n iawn dweud 'dw i ddim yn gwbod'

Chwaraewch y drydedd rhan cyn mynd dros cwestiynau 7-10 a gofyn i barau drafod y cwestiynau hynny. Chwaraewch y darn eto cyn iddynt drafod a'i ailchwarae drachefn os bydd angen.

10. Gwaith cartref – gwrando ar Radio Cymru

Sicrhewch eich bod yn gwybod ar ba donfedd mae Radio Cymru'n darlledu'n lleol cyn dod i'r dosbarth a sicrhewch fod y dysgwyr i gyd yn gwybod sut i ganfod yr orsaf.

Gofynnwch i bawb wrando ar rywbeth ar Radio Cymru cyn y dosbarth nesaf. Yn y dosbarth hwnnw, rhowch y dysgwyr mewn grwpiau bach i drafod y rhaglenni y buon nhw'n gwrando arnyn nhw gan ddefnyddio'r cwestiynau yn y blwch siarad fel canllaw.

Atodiad 1 – Trawsgrifiad o'r sgwrs gyda Rhuanedd Richards

Dw i'n sgwrsio gyda Rhuanedd Richards, Golygydd Radio Cymru. Rhuanedd, sut byddech chi'n disgrifio cynnwys Radio Cymru?

Ma' rhaglenni Radio Cymru yn amrywiol iawn – ma' gennym raglenni cerddoriaeth, o pop i jazz, cerddoriaeth glasurol, gwerin, cerddoriaeth draddodiadol Gymreig, mae gennym raglenni newyddion sy'n dod â'r diweddara o Gymru a'r byd i'r gynulleidfa, mae gennym raglenni dogfen ar bob math o bynciau a rhaglenni llafar sy'n trin bob math o bynciau hefyd, o wleidyddiaeth i'r celfyddydau, i hanesion pobl, yn ogystal wrth gwrs â drama a chomedi. Ma' pob math o raglenni ar arlwy Radio Cymru, ond rwy'n gobeithio y byddech chi hefyd yn cytuno fod y cynnwys o safon uchel iawn – cyflwynwyr sy'n deall eu pynciau, a gobeithio, sy'n dod â'r byd yn agos aton ni rywsut.

A beth yw'r heriau mwya sy'n wynebu'r orsaf felly?

I raddau, yr un peth sy'n gryfder i ni ag sy'n heriol i ni, sef ein bod ni'n ceisio sicrhau fod Radio Cymru'n gallu apelio'n eang a chynnig rhywbeth at ddant pawb sy'n siarad neu sy'n dysgu Cymraeg. Rydym yn deall na allwn ni wastad plesio pawb gyda phopeth, ond baswn i'n hoffi meddwl bod 'na o leiaf peth o'r arlwy sy'n medru apelio at bawb.

Ie, ma' gwrandawyr, wrth gwrs yn gallu dewis o nifer o wahanol orsafoedd os ydyn nhw am wrando yn Saesneg, ond un orsaf Gymraeg sydd. Oes digon o ddewis, felly, i wrandawyr Cymraeg?

Wel, be sy'n ardderchog, wrth gwrs nawr yw bod gan Radio Cymru ail wasanaeth, sef Radio Cymru 2, ac felly yn y boreau, pan mae Radio Cymru'n cynnig rhaglen newyddion, ar Radio Cymru 2 mi all y gynulleidfa fynd draw a dewis rhaglen gerddoriaeth ac adloniant ysgafn. Felly o'r diwedd, mae gan bobl ddewis rhwng y newyddion a'r adloniant ysgafn bob bore. Wrth gwrs, byddwn i'n hoffi gweld mwy o orsafoedd radio yn cynnig gwasanaeth yn y Gymraeg – mae hynny'n bwysig ofnadwy i sicrhau bod 'na gystadleuaeth a bod 'na ddewis eang gan bobl. Ond rwy'n derbyn ar hyn o bryd, y BBC sydd wrth gwrs yn cynnig y gwasanaeth mwya cynhwysfawr yn y Gymraeg.

Atodiad 2 – Trawsgrifiad o sgwrs Beti George ac Aled Hughes

Mae'n amlwg, Aled, eich bod chi wrth eich bodd yn cyflwyno rhaglen o'r math yma. Beth yw'r apêl?

Yr apêl, yn syml ydy gallu bod yn fi fy hun, yn gyffyrddus yn fy nghroen yn trafod fy ngwlad, fy iaith, y petha sydd o'n cwmipas ni o ddydd i ddydd, y petha, o bosib dan ni yn eu cymryd yn ganiataol a weithia ddim yn cymryd digon o amsar i stopio a rhyfeddu a dadansoddi a pwysu a mesur a cheisio rhoi cyd-destun, dw i'n meddwl i wahanol betha felly. Ma ista 'ma'n cael gwneud hynny fel creadur busneslyd sydd wrth ei fodd yn cael mynd ar drywydd gwahanol betha hefyd, dyna, dw i'n meddwl ydy o felly – i rywun busneslyd, ma cael gwneud hynny'n ffrain, yn syml iawn.

Achos 'ych chi'n trafod cynifer o bynciau, a phynciau gwahanol yn ystod eich rhaglen. Shwd 'ych chi'n paratoi?

Siarad ymysg ein gilydd yn amlwg. Nid y fi ydy'r rhaglen, ma'r rhaglen yn griw o dîm a ma gweithio hefo gwahanol bobl a gweld weithia be sydd yn fy nghanio i, be sydd yn eu tanio nhw, a plethu'r holl beth at ei gilydd, a trafod a sgwrsio a gweld. Dw i'm yn meddwl bod 'na ryw fformiwla, dw i'm yn meddwl bod 'na ryw batrwm dan ni'n ei ddilyn, dim ond yn gobeithio os ydyn nhw'n bynciau trafod i ni y byddan nhw'n bynciau trafod ehangach wedyn, a dod atyn nhw o bosib o rhyw ongl ychydig bach yn wahanol i'r arferol ella.

O'ch chi'n arfer gweithio yn y maes newyddion. Beth yw'r gwahaniaeth mwya?

Mae 'na fwy o ffenest i sgwrsiau anadlu yn y math yma o raglen dan ni'n ei gwneud bob bora. Dydy'r pwysa amser ddim mor amlwg; hynny ydy, os ydy sgwrs yn mynd yn bedwar munud a hanner, does 'na neb yn deud yn y nghlust i, gwrandda ma rhaid i ni fynd at y papura rŵan neu ma rhaid i ni fynd at y bwletin nesa rŵan. Os ydy'r sgwrs yn mynd yn wyth munud ac yn naturiol yn anadlu, wel dyna ni, dyna sydd yn digwydd ac mi wnawn ni adlewyrchu hynny wrth ei darlledu hi. Ond dw i'n meddwl mai'r lle yna ydy'r peth pwysica.

Be chi'n gredu ydy prif nod cyflwynydd fel chi?

Bod mor agos ag y gallwch chi at y bobl. Peidio bod yn fi fawr, ac mae'n bwysicach wastad gwranddo yn hytrach na deud, dw i'n meddwl. Ma gwranddo ar be sydd gan y cyfrannydd i'w ddeud yn hytrach na meddwl am be alla i ddeud nesa, neu sut y galla i ddangos fy hun am ryw bwt o wybodaeth yn bwysicach na dim byd. A dw i'n meddwl ei bod hi'n iawn deud 'dw i ddim yn gwbod'. Ma 'na rwy ofn dw i'n teimlo weithia pobl yn deud, o ia, dw i'n cofio hynny oherwydd hyn, llall a'i gilydd, ond ma deud dw i'm yn gwbod, gawn ni ddarganfod y peth hefo'n gilydd, dwi'n meddwl bod hynny'n help.

Aled Llanbedrog yw'ch enw chi ar Twitter ac un o fan 'ny 'ych chi. Yr ardal sy'n eich ysbrydoli, mae'n amlwg.

Ia, ac yn fy ngwythiennau i yn amlwg o ddydd i ddydd bob dydd, y Gymraeg wedi llifo'n naturiol ers degawdau yn yr ardal ac wedi bod yn rhan o'm magwraeth i yn yr ysgol Sul, yn y capel, yn y dafarn, o'n i'n gweithio mewn tafarn am flynyddoedd, ac i mi ma ista tu ôl i feicroffon fel bod y tu ôl i'r bar

yn y dafarn yn aml iawn, dach chi'm yn gwbod pwy ddaw i mewn, dach chi ddim yn gwbod be maen nhw am ei drafod felly ma cael ryw fath o wybodaeth am bob math o wahanol betha yn help.

Ond wrth gwrs, ma rhaid eich bod chi'n gwneud yn siŵr bod y rhaglen yn berthnasol i Gymru gyfan.

Ydy, ydy achos Radio Cymru ydan ni, ma rhaid i mi fod yn onast, dw i ddim yn ffan mawr iawn o drafod rhyw betha eraill, er bod ni'n cael ein llyncu'n aml iawn gan y diwylliant Eingl-Americanaidd, ac ma 'na gymaint o wahanol sianeli ar gael, wel ma 'na lefydd fydd yn trafod Love Island a Bake Off a phob math o betha eraill a ia, allwn ni drafod ein pethau ein hunain yn hyderus ac yn falch.

Diolch Aled

Diolch Beti.